Gemau sy'n cael eu chwarae gan Bobl (Gemau Pobl)

Efallai y bydd rhai plant yn cael anhawster i chwilio am eraill wrth chwarae, ac nid yw'n ymddangos eu bod yn deall y pleser sy'n dod o rannu sylw â pherson arall.

Mae gemau pobl yn drefnau syml, ailadroddus sy'n gofyn am ddau berson. Yn aml, caiff gemau pobl eu chwarae yn yr un ffordd bob tro, felly maen nhw'n ffordd wych i'ch plentyn ddysgu sut i ryngweithio a chwarae gyda chi.

Beth ddylwn i ei wneud?

- Gwnewch y gân a'r symudiadau mor **fywiog** â phosibl; bydd hyn yn helpu i gadw sylw'r plentyn.
- Chwaraewch gemau, sydd â'r un diweddglo hwyliog bob tro, bydd hyn yn helpu'r plentyn i ragweld beth sy'n mynd i ddigwydd.
- **Oedwch** ac **aroswch** i'r plentyn ddangos ei fod eisiau i chi barhau. Gall wneud hyn gyda symudiad, golwg, gwên neu sain.

Sut?

Gweithgareddau byr, hwyliog, syml sy'n cymryd tua 2-5 munud.

Byddwch y gweithgaredd mwyaf cyffrous yn yr ystafell, felly fydd rhaid i mi ymuno.



Syniadau gemau a rhigymau meithrin

- Bownsiwch y plentyn i fyny ac i lawr ar eich glin neu chwarae gemau siglo ar y llawr.
- Chwaraewch **'pip-po!'** neu **gemau cuddio**.
- Canwch rigymau symud gyda'ch gilydd, fel, "**Mi welais Jac y do, yn eistedd ar y to",** a "**Mynd ar y ceffyl clipidi-clop".**

Eu roi ar waith

- Anogwch eich plentyn i gymryd rhan mewn gemau corfforol gyda phobl – **rydych chi eisiau iddo ddarganfod faint o hwyl y gall ei gael gyda chi.**
- Dewiswch weithgaredd byr y mae eich plentyn yn ei fwynhau ac un y gellir ei wneud **dro ar ôl tro.**
- Mae gemau lap yn ddelfrydol i ddechrau, defnyddiwch gamau y gallwch eu modelu a'u hannog.
- Unwaith y bydd y plentyn wedi profi'r drefn

Am syniadau pellach edrychwch ar y fideos

SCAN ME

SCAN ME

www.llyw.cymru/siarad-